



04

Y Cyfryngau Cymdeithasol



Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn llwyfan hynod o effeithiol, cost isel y gallwch ymddiried ynddo a'i ddefnyddio i ddenu ymwelwyr newydd, eu tywys nhw atoch chi, sefydlu cysylltiadau ar-lein gyda chwsmeriaid o'r gorffennol, y presennol a darpar gwsmeriaid. Gallwch fonitro beth sy'n cael ei ddweud am eich busnes, ymuno â sgysiau perthnasol, rhannu eich newyddion, digwyddiadau a hyrwyddiadau diweddaraf. dd hyn i gyd yn helpu i dynnu sylw at y pethau sy'n gwneud eich busnes yn arbennig ac yn sicrhau y bydd pobl yn sylwi arnoch chi.

Nod y cyfryngau cymdeithasol yw annog cyswllt a sgwrs, denu ymateb, emosiwn a gweithred – fel edrych ar eich gwefan a'ch cynigion, cofrestru i dderbyn blog neu gylchlythyr, holi cwestiwn i chi, gadael sylw neu rannu eich postiad gyda ffrindiau.

Dewiswch y sianeli cywir i'ch busnes - bydd hyn yn cynnig y cyfleoedd gorau ar gyfer cyrraedd eich cwsmeriaid targed. Dyma rai o'r cyfryngau allweddol a chrynodeb o'r goreuon o blith y lleill, ynghyd ag awgrymiadau ar sut i'w defnyddio i farchnata eich busnes.

Sylwch fod gan lawer o lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol offeryn dadansoddi sy'n gadael i chi weld a thracio ymddygiad pobl sy'n ymweld â'r dudalen, gweld pa rai o'ch postiadau sy'n gweithio a pha rai sydd ddim, a gwella eich presenoldeb ar-lein yn y dyfodol.

Facebook

Facebook yw'r rhwydwaith cymdeithasol mwyaf yn y byd, a gyda thros 30m o ddefnyddwyr yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhan hanfodol o gynllun marchnata digidol ar-lein llawer o fusnesau. Wrth greu cyfrif mae'n bwysig eich bod yn defnyddio'r opsiwn Tudalen Busnes yn hytrach na chyfrif personol arferol. Mae tudalen busnes yn hawdd ei rheoli a bydd yn gadael i chi ddefnyddio nodweddion ychwanegol, fydd yn gwneud eich busnes yn haws o lawer i bobl ei weld. Y brif egwyddor wrth greu Tudalen Busnes Facebook yw annog cwsmeriaid hen a newydd i 'hoffi' eich tudalen, sy'n golygu y bydd unrhyw beth rydych chi'n ei bostio yn y dyfodol yn ymddangos ar eu llinell amser. Hefyd, bydd unrhyw bost gennych chi maen nhw'n ei 'hoffi' neu 'rannu' yn cael ei weld gan eu grŵp ffrindiau ehangach ar Facebook.

Manteision

- Mae Facebook yn syml ac yn rhad i'w ddefnyddio ac yn sicrhau sylw eang i'ch busnes.
- Mae'n gadael i chi ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, gyda delweddau difyr a fideos yn arbennig o effeithiol.
- Mae'n ffordd dda i gadw cysylltiad gyda chwsmeriaid hen a newydd.
- Mae Tudalen Busnes Facebook yn golygu bod unrhyw beth rydych chi'n ei bostio'n gallu cael ei weld drwy beiriannau chwilio a hefyd bydd unrhyw ddolen o'ch tudalen at eich gwefan yn cynyddu'r siawns y bydd eich gwefan yn cyrraedd safle uwch yn y peirannau chwilio.
- Mae nodwedd 'digwyddiadau' Facebook yn gadael i chi greu digwyddiad i hysbysebu i'r cyhoedd, bydd yn rhoi syniad i chi faint o bobl fydd yn dod ac yn gadael i chi ateb unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.
- Mae angen i chi bostio'n rheolaidd i wneud yn siŵr fod eich Tudalen yn ffres ac yn gyfoes, ond does dim rhaid i chi bostio bob dydd o reidrwydd.
- Gallwch bostio gwybodaeth a delweddau ar Dudalennau eraill, a gaiff eu rhannu gyda'u cynulleidfa nhw, a gallwch anfon negeseuon uniongyrchol.
- Defnyddiwch eich proffil personol i ymuno â grwpiau fydd yn eich helpu i gael y newyddion diweddaraf am y diwydiant, neu er mwyn dysgu am y bywyd gwyllt neu'r dreftadaeth yn eich ardal ac yng Nghymru yn gyffredinol.
- Cofiwch ddefnyddio hashnodau ar gyfer geiriau allweddol yn eich post, fel #Ceredigion, #BaeCeredigion #MynyddoeddCambria #dolffiniaid ac ati. Cofiwch eu hychwanegu at y geiriau allweddol wrth bostio hefyd.

Rhagor o wybodaeth:

<https://www.facebook.com/business/overview>

Twitter

Twitter yw'r ail safle rhwydweithio cymdeithasol mwyaf poblogaidd yn y Deyrnas Unedig ac mae'n caniatáu i ddefnyddwyr anfon a darllen 'trydar' byr 140 o nodau. Mae'n adnodd marchnata rhagorol lle gallwch chi ryngweithio'n uniongyrchol gyda'ch cynulleidfa darged a phobl sy'n rhannu'r un diddordebau. Mae trydar fel anfon neges destun at eich holl ddilynwyr ar unwaith: mae'n gyflym, yn gryno ac yn gyfredol, mae'n berffaith ar gyfer rhannu bargeinion a chynigion, pytiau byr o wybodaeth, neu hyd yn oed sylw ar y pryd (sy'n cael ei alw'n drydar byw) mewn digwyddiadau fel gwyliau bwyd neu wibdeithiau.

Manteision

- Ffordd dda i siarad yn uniongyrchol gyda chwsmeriaid gan fod trydar yn gallu teimlo'n fwy personol na phostiad Facebook, a gydag yn agos i un biliwn o ddefnyddwyr ar draws y byd, gall hyd yn oed y busnes lleiaf un ddod o hyd i gynulleidfa.
- Mae hashnodau'n gadael i fusnesau fod yn rhan o sgysiau ehangach. Gall defnyddio #Ceredigion ym mhob trydar perthnasol helpu i greu cymuned ar-lein sy'n hyrwyddo'r gorau o'r hyn sydd gan Geredigion i'w gynnig.
- Er mwyn cynnwys rhywun yn eich sgwrs, defnyddiwch '@', e.e. @VisitCeredigion i gynnwys Darganfod Ceredigion yn eich sgwrs, neu @DerekTheWeather i anfon eich delweddau hyfryd o'r tywydd neu'r machlud.
- Gallwch gynnwys eich postiadau Twitter ar eich hafan – gallwch helpu eich gwefan i edrych yn ffres a chyfoes drwy drydar yn rheolaidd.

Rhagor o wybodaeth:

<https://business.twitter.com/>

Instagram

Gwasanaeth rhwydweithio cymdeithasol ar-lein sy'n rhannu ffotograffau a fideos yw Instagram. Gall defnyddwyr rannu lluniau a fideos yn gyhoeddus neu'n breifat, yn ogystal â thrwy nifer o lwyfannau rhwydweithio cymdeithasol eraill fel Facebook, Twitter, Tumblr, a Flickr. Mae hwn yn gallu bod yn llwyfan effeithiol iawn.

Manteision

- Mae llun werth mil o eiriau ac os yw beth sydd gennych chi i'w gynnig yn ffotogenig, does dim ffordd well i'w hyrwyddo na gyda delwedd neu fideo deniadol.
- Gallwch gysylltu eich Instagram gyda Facebook a Twitter, gan ganiatáu rhyngweithio di-dor a chysondeb brand a neges.

Rhagor o wybodaeth:

<http://blog.wishpond.com/post/59612395517/52-tips-how-to-market-on-instagram/>

Y gorau o'r gweddill

YouTube

Gyda biliynau o ddefnyddwyr, drwy YouTube mae pobl yn darganfod, gweld a rhannu fideos gwreiddiol. YouTube yw'r peiriant ail fwyaf ar y rhyngwrwd ac mae ystadegau'n dangos bod cyfran uchel o siopwyr taith yn gwylio fideos taith cyn gwneud penderfyniadau pwrcasu. Mae hyn, ynghyd â'r ffaith fod cyfradd uwch o lawer o bobl yn clicio at wefannau ar ôl gwylio fideo nag ar ôl darllen testun, yn dangos y gall fod yn offeryn brandio a hyrwyddo pwerus iawn os yw'n cael ei wneud yn dda.

Pinterest

Ar Pinterest rydych chi'n creu bwrdd pin rhithiol, ar-lein yn seiliedig ar eich diddordebau, a gallwch ei ddiweddarau ar unrhyw adeg. Mae Pinterest yn ymwneud mwy â darganfod a churadu cynnwys sydd wedi'i greu gan bobl eraill ac mae'n adlewyrchu beth rydych chi fel busnes yn ei wneud ar yr adeg honno.

Vimeo

Safle fideo digon tebyg i YouTube yw Vimeo, ond gydag un rhan o ddeg o'r nifer o ddefnyddwyr. Yn wahanol i YouTube, does dim hysbysebu, sy'n golygu bod modd gwylio fideos yn rhwydd heb ymyrraeth. Mae gan Vimeo drefn tanysgrifio hefyd os ydych chi'n bwriadu uwchlwytho fideos yn rheolaidd.

Google+

Mae Google+ yn dda iawn ar gyfer brandiau sydd eisoes ar y rhwydweithiau cymdeithasol mawr ac i flogwyr hefyd. Mae'n ychydig yn fwy proffesiynol na Facebook ac elfen ganolog o'i apêl yw optimeiddio peiriannau chwilio. Gall cyfrif Google fod yn ddefnyddiol iawn, gyda'i nodweddion ebost, dogfennau a sleidiau, yn ogystal â Google+. Hefyd mae'n rhaid cael cyfrif Google i gofrestru â YouTube.

TripAdvisor

Bydd twristiaid a theithwyr yn aml yn edrych ar TripAdvisor i weld barn pobl eraill am fusnes neu gyrchfan ac mae'n cael ei ystyried yn ffynhonnell ddibynadwy gan ddefnyddwyr. Edrychwch i weld a yw eich busnes ar TripAdvisor, ac os oes canmoliaeth, beth am ddiolch i'r cyfrannwr. Ceisiwch ymateb yn bwyllog a ffeithiol i unrhyw sylwadau negyddol - mae'n aml yn fater o farn, ac yn ddelfrydol byddai unrhyw broblem wedi'i ddatrys ar y pryd. Cofiwch y gallwch lwytho eich delweddau eich hun ar TripAdvisor.

Awgrymiadau ar gyfer marchnata eich busnes yn llwyddiannus drwy'r cyfryngau cymdeithasol:

Gwnewch eich ymchwil a dewch i adnabod eich cynulleidfa

Mae llawer o wybodaeth ar gael am y ffyrdd mwyaf effeithiol o farchnata eich busnes, a gall deimlo'n frawychus gorfod gweithio eich ffordd drwy'r llif o wybodaeth (sydd yn aml yn gwrthddweud ei hun). Fodd bynnag, os gwnewch chi ychydig o ymdrech i ddod i adnabod eich cynulleidfa darged a'i ymddygiad bydd eich cynnyrch yn cael effaith uwch o lawer. Pa ddemograffig ydych chi'n eu targedu? Mae defnyddwyr Facebook yn tueddu i fod yn hŷn na defnyddwyr Instagram (gyda Twitter rhywle yn y canol). Sut ddylech chi bostio eich neges? Er mwyn aros yn berthnasol, bydd angen postio ar Twitter yn amlach nag ar Facebook. Gwnewch eich ymchwil a mwynhewch yr enillion.

Cadwch bersona busnes a phersonol ar wahân

Eich sianeli cyfryngau cymdeithasol yw'r cyfle i chi gynyddu adnabyddiaeth o'ch busnes a'i werthu i'r byd mawr. Felly mae'n hanfodol eich bod yn cadw eich proffil personol a'ch proffil busnes ar wahân er mwyn osgoi cymysgu'r negeseuon a thrwy hynny wanhau'r hyn rydych chi'n ceisio ei gyfleu i'ch cynulleidfa darged.

Dilynwch reol traean

Mae'n bwysig nad yw eich cynnwys yn ymwneud â gwerthu a marchnata yn unig, ond dylai fod yn rhan o gyswllt ehangach rhyngoch chi a'r byd mawr. Canllaw bras yw dilyn 'rheol traean' y cyfryngau cymdeithasol, lle mae un traean o'ch cynnwys yn hyrwyddo eich busnes; traean arall yn rhannu cynnwys gan arweinwyr eraill yn y diwydiant twristaidd yng Nghymru fel Darganfod Ceredigion a Croeso Cymru neu fusnesau eraill sy'n ategu'ch un chi; a dylai'r trydydd traean ymwneud â chyswllt personol a chysylltu'n uniongyrchol â'ch cynulleidfa darged. Ceisiwch osgoi 'gwerthu caled'.

Byddwch yn weledol

Gall un llun gael ei rannu mil o weithiau, a does dim gwadu bod cynnwys amlgyfryngol yn gyrru trafndiaeth gynyddol. Does dim rhaid i'ch delweddau a'ch fideos fod yn broffesiynol, ond serch hynny mae'n bwysig cadw rhywfaint o reolaeth dros yr ansawdd a gwnewch yn siŵr fod eich cynnwys yn dangos eich busnes – a Cheredigion – yn y golau gorau bosib.

Defnyddiwch hashnod #Ceredigion

Wrth bostio cynnwys fel delweddau a fideos, defnyddiwch hashnod #Ceredigion i ategu eich postiau. Drwy wneud hyn gallwch fwydo i gymuned arlein sy'n arddangos y gorau sydd gan Geredigion i'w gynnig i unrhyw ddarpar ymwelwyr.

Cysylltwch â'ch dilynwyr

Mae'r cyfryngau cymdeithasol yn fwy na sgwrs un ffordd, a dylech gysylltu â'ch dilynwyr cymaint â phosib. Helpwch gymaint ag y gallwch ac os cewch sylwadau negyddol, ceisiwch liniaru'r rhain cymaint â phosib mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol, yn hytrach na'u gadael heb eu datrys.

Gwnewch y defnydd gorau o'r adran 'amdanoch chi'...

ar eich tudalen er mwyn ateb cymaint o gwestiynau â phosib cyn iddyn nhw gael eu gofyn.

Arbrofwch gyda hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol

Rhowch gynnig ar hysbysebu drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. Yn wahanol i ffurfiau traddodiadol o hysbysebu, gallwch ddechrau gyda chyllideb mor fach ag yr hoffech chi. Hefyd gallwch dargedu eich cynulleidfa darged bosibl gyda ffactorau fel oed, diddordebau neu leoliad daearyddol, gan sicrhau bod unrhyw ymgyrch yn cael ei deilwra i fod mor effeithiol â phosib.

Mesurwch eich llwyddiant

Drwy ddefnyddio cymwysiadau trydydd parti neu offerynnau dadansoddi Facebook a Twitter, mae'n bosib gwerthuso eich cynnyrch, a phobl eraill, i weld pa bostiadau sy'n llwyddo – a pham – a cheisio ailadrodd y llwyddiant hwn. po fwyaf y byddwch yn dadansoddi eich cynnyrch a gweithredu ar y canlyniadau, y gorau y bydd eich canlyniadau dros amser.

Dilynwch bobl eraill yn y diwydiant

Cofiwch ein dilyn ni ar [facebook.com/discover Ceredigion](https://facebook.com/discoverCeredigion) a twitter.com/visitceredigion, yn ogystal â'r sianeli Croeso Cymru fel facebook.com/visitwales, twitter.com/visitwales a sianel busnes twitter.com/visitwalesbiz. Drwy gydweithio a defnyddio'r un wybodaeth a deunydd at ddibenion gwahanol gallwn sicrhau effaith a dangos i ddarpar ymwelwyr bod Ceredigion yn gyrchfan rhagorol ar gyfer seibiau byr a gwyliau hirach.

Defnyddiwch offerynnau trydydd parti

Mae cael y cyfryngau cymdeithasol yn iawn yn gallu cymryd llawer o amser, felly defnyddiwch gymwysiadau trydydd parti fel Hootsuite, Buffer neu SocialOomph (ymhlith llawer o rai eraill) i'ch helpu i gael y gorau o'ch negeseuon. Drwy'r rhain gallwch amseru postiadau ymhell o flaen llaw, sy'n golygu nad oes rhaid i chi fod gyda'ch ffôn neu o flaen cyfrifiadur drwy'r amser. Hefyd, edrychwch pryd mae eich cynulleidfa darged yn fwyaf gweithredol ac amserwch eich trydar yn unol â hynny. Cadwch lygad am gyrsiau sy'n gallu eich helpu i ddefnyddio'r nodweddion a'r pecynnau hyn yn effeithiol.

facebook.com/DiscoverCeredigion

twitter.com/visitceredigion

twitter.com/visitwalesbiz

facebook.com/visitwales

twitter.com/visitwales